# HUMPHREYS, RHOBERT (neu RHOBERT RHAGAT) (fl. c. 1720), bardd

**Enw:** Rhobert Humphreys
**Ffugenw:** Rhobert Rhagat
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

a brodor (y mae'n debyg) o'r Rhagad, ger Corwen yn Sir Feirionnydd. Cadwyd peth o'i waith mewn llawysgrifau, a hwnnw'n cynnwys cywyddau gofyn i Tomas Carter o Ginmel (sir Ddinbych) ac i Tomas Holant o Deirdan, ger Llanelian (sir Ddinbych), ac amrywiol englynion, yn cynnwys rhai o fawl i Siôn Rhydderch, yr argraffydd o Amwythig, dau uwch bedd Huw Morus, y bardd, a rhai o anghlod i Niwbwrch, sir Fôn. (Atebodd Evan Jones, a fuasai'n berson Niwbwrch, i'r rhai olaf hyn.) Ceir enghreifftiau o'i farddoniaeth yn y llawysgrifau canlynol: Cwrtmawr MSS. 206, 463; N.L.W. MSS. 276, 436, 783, 1238, 1244, 1579, 1580, 1666, 4697, 11993, 12449. Ceir un pennill rhydd ganddo yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (gol. T. H. Parry Williams ), 1931, 201.

## Awdur

**Ray Looker**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu